# Uned 4: Cyflawni Prosiect Ymchwilio yn y Sector Tir

**Côd yr Uned:** M/601/0021

**FfCC Lefel 3:** BTEC Cenedlaethol

**Gwerth o ran credydau:** 10

**Oriau dysgu dan arweiniad:** 60

## Nod a diben

Nod yr uned hon yw rhoi dealltwriaeth i ddysgwyr o egwyddorion cyflawni prosiect ymchwilio a sut gellir rhoi hynny ar waith. Mae'r uned hon yn bennaf ar gyfer dysgwyr sy'n dysgu mewn canolfan ac sydd am symud i'r sector neu i hyfforddiant neu addysg bellach.

## Cyflwyniad i'r uned

Mae prosiectau ymchwil yn aml yn cael eu cyflawni yn y diwydiannau amgylcheddol a thir er mwyn creu neu wella cynnyrch, gwasanaeth neu broses. Mae'r gallu i gyflawni neu gynorthwyo'r fath brosiect yn galw am sgiliau pwysig a fydd yn dylanwadu ar lwyddiant y prosiect. Mae'r uned hon yn rhoi cyfle i ddysgwyr ddatblygu sgiliau rheoli prosiect trwy ymchwilio i faes pwnc o'u dewis trwy brosiect o'u dewis. Bydd yr wybodaeth a'r sgiliau a ddatblygir yn yr uned hon yn cysylltu â mwyafrif yr unedau eraill mae'r dysgwyr yn eu hastudio fel rhan o'u rhaglen ac yn ychwanegu atynt.

Bydd y dysgwyr yn archwilio'r meysydd pwnc sydd o ddiddordeb iddyn nhw ac sy'n berthnasol i'w dyheadau gyrfa. Byddant yn dewis un o blith y meysydd pwnc hyn a fydd yn ffurfio conglfaen eu prosiect ymchwilio. Bydd y dysgwyr yn cynllunio ar gyfer eu hastudiaeth prosiect ymchwilio trwy ymchwilio i faes pwnc o'u dewis a dadansoddi adnoddau a chynllun gweithredu'r prosiect. Ystyrir iechyd a diogelwch yn barhaus a bydd y dysgwyr yn cyflawni asesiad risg cyn dechrau ar eu prosiect.

Bydd y dysgwyr yn gweithredu, yn cyflawni ac yn cwblhau eu prosiect ymchwilio. Byddant yn gweithio tuag at derfynau amser ac yn monitro perfformiad y prosiect. Bydd y dysgwyr yn paratoi adroddiad gwerthusol a fydd yn trafod perfformiad y prosiect, a oedd cynllun yr amserlen yn addas ar gyfer nodau ac amcanion y prosiect, a sut gellid gwella yn y dyfodol.

## Deilliannau dysgu

**Wedi cwblhau'r uned hon dylai'r dysgwr:**

1 Allu nodi ac ymchwilio i bwnc addas ar gyfer prosiect ymchwilio yn y sector amgylcheddol a thir

2 Gallu cynllunio prosiect ymchwilio yn y sector amgylcheddol a thir

3 Gallu cyflawni prosiect ymchwilio yn y sector amgylcheddol a thir

4 Gallu adrodd am brosiect ymchwilio yn y sector amgylcheddol a thir.

## Cynnwys yr uned

### 1 Gallu nodi ac ymchwilio i bwnc addas ar gyfer prosiect ymchwilio yn y sector amgylcheddol a thir

*Pwnc:* nodau; amcanion; rheswm dros y prosiect; addasrwydd (dyheadau gyrfa); anawsterau posib; dilysrwydd; cymharu pynciau perthnasol

*Prosiect ymchwil:* cywain gwybodaeth ee y rhyngrwyd, llyfrgell, trafodaeth, cyfryngau

### 2 Gallu cynllunio prosiect ymchwilio yn y sector amgylcheddol a thir

*Dadansoddiad o'r gwaith:* adnoddau ee pobl, amser, adeiladau, cyfarpar, deunyddiau, cyfryngau (y rhyngrwyd, cylchgrawn masnach), cymwysiadau TG, cyllideb

*Cynllun yr amserlen:* nodau; amcanion; dyddiad dechrau; dyddiad cwblhau; gweithrediadau (tasgau); amseriadau (argaeledd adnoddau); cynllunio wrth gefn; ffactorau trafferthus ee cyfyngiadau ar adnoddau, dylanwadau allanol; camau adferol ee adnoddau ychwanegol, adolygu'r amserlen

### 3 Gallu cyflawni prosiect ymchwilio yn y sector amgylcheddol a thir

*Prosiect:* rhoi ar waith (sefydlu, dechrau); gweithrediadau (tasgau, dyletswyddau); monitro perfformiad yn erbyn cynllun yr amserlen ee cynnydd dyddiol, cynnydd wythnosol, cynnydd misol, cyllideb, mesurau priodol eraill, ar gyfer pob adnodd a/neu dasg; terfynau amser; cwblhau; iechyd a diogelwch; cyfathrebu

### 4 Gallu adrodd am brosiect ymchwilio yn y sector amgylcheddol a thir

*Adroddiad:* nodau; amcanion; cynllun yr amserlen; crynodeb gwaith; amgylchiadau annisgwyl; canlyniadau; gwerthuso (cryfderau, gwendidau); llyfryddiaeth, cyfeiriadaeth; cyflwyno adroddiad (ysgrifenedig, llafar)

## Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth a gaiff ei chyflwyno gan y dysgwyr i'w hasesu arddangos eu bod yn bodloni'r holl ddeilliannau dysgu ar gyfer yr uned. Mae’r meini prawf ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy’n angenrheidiol i lwyddo yn yr uned hon.

| Meini prawf asesu a graddio | | |
|---|---|---|
| **I gyflawni gradd llwyddo rhaid i’r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:** | **I gyflawni gradd teilyngdod rhaid i’r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:** | **I gyflawni gradd rhagoriaeth rhaid i’r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:** |
| Ll1 rhestru ffynonellau gwybodaeth perthnasol i'r pwnc fydd yn destun yr ymchwil [YA] | T1 egluro'r rhesymau dros ddewis y prosiect ymchwilio dan sylw yn y sector amgylcheddol a thir | |
| Ll2 cyflawni ymchwil i bynciau posib [MC] | | |
| Ll3 dethol a disgrifio pwnc prosiect ymchwilio perthnasol yn y sector amgylcheddol a thir [YA, MC] | | |
| Ll4 paratoi cynnig ar gyfer prosiect ymchwilio [HR] | | |
| Ll5 cynllunio’r gweithrediadau a’r adnoddau angenrheidiol i gyflawni prosiect ymchwilio yn y sector amgylcheddol a thir [HR] | T2 egluro pam mae’r adnoddau a nodwyd yn briodol ar gyfer cynllun amserlen gweithrediadau penodol | |
| Ll6 egluro pam dewiswyd yr adnoddau dan sylw [MC] | | |

| Meini prawf asesu a graddio | | |
|---|---|---|
| **I gyflawni gradd llwyddo rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:** | **I gyflawni gradd teilyngdod rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:** | **I gyflawni gradd rhagoriaeth rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:** |
| Ll7 cyflawni prosiect ymchwilio a ddewiswyd yn y sector amgylcheddol a thir [MC, HR] | T3 egluro pwysigrwydd monitro perfformiad yn rheolaidd yn erbyn amserlen gweithrediadau prosiect ymchwilio a ddewiswyd | |
| Ll8 monitro cynnydd, gan weithio i derfynau amser [HR] | | |
| Ll9 trafod goblygiadau iechyd a diogelwch y prosiect ymchwilio [HR] | | |
| Ll10 adrodd am brosiect ymchwilio a ddewiswyd yn y sector amgylcheddol a thir [YA, DM] | T4 paratoi adroddiad sy'n nodi cynllun, amserlen gweithrediadau, monitro a chwblhau ar gyfer prosiect ymchwilio a ddewiswyd yn y sector amgylcheddol a thir. | Rh1 cyflwyno adroddiad llawn sy'n nodi cynllun, amserlen gweithrediadau, monitro a chwblhau prosiect ymchwilio a ddewiswyd yn y sector amgylcheddol a thir. |
| Ll11 gwerthuso cyflawniadau a meysydd ar gyfer gwella mewn prosiect ymchwilio a ddewiswyd. [YA, DM] | | |

**SPDM**: Mae'r crynodeb hwn, lle y bo'n berthnasol, yn cyfeirio yn y meini prawf llwyddo, yn y cromfachau sgwâr, at elfennau o'r sgiliau personol, dysgu a meddwl. Mae'n nodi'r cyfleoedd i ddysgwyr arddangos eu bod wedi defnyddio elfennau'r sgiliau y cyfeirir atynt yn effeithiol.

| **Allwedd** | |
|---|---|
| | YA – ymholwyr annibynnol |
| | MC – meddylwyr creadigol |
| | DM – dysgwyr myfyriol |
| | GT – gweithwyr tîm |
| | HR – hunan-reolwyr |
| | CE – cyfranogwyr effeithiol |

## Arweiniad hanfodol i diwtoriaid

### Cyflwyno

Wrth gyflwyno'r uned hon bydd angen asesiadau ymarferol ac ysgrifenedig, a gallai gysylltu â lleoliadau profiad gwaith diwydiannol.

Mae'r deilliannau dysgu yn cwmpasu nodi, cynllunio, cyflawni a gwerthuso yr hyn a fyddai fel arfer yn un prosiect ymchwilio at ddibenion cyflwyno ac asesu. Dylai'r prosiect hwn fod yn gysylltiedig â rhaglen astudio'r dysgwr a/neu ddyheadau gyrfa yn y sector amgylcheddol a thir.

Ar gyfer deilliant dysgu 1 rhaid i'r dysgwyr nodi a gwneud gwaith ymchwil ar bwnc ar gyfer prosiect ymchwilio. Bydd y cyflwyno yn cynnwys mewnbwn ffurfiol, gan gynnwys mewnbwn ar ddulliau ymchwil a ffynonellau gwybodaeth. Bydd gofyn i'r dysgwyr ddewis tri phwnc gwahanol yn y sector amgylcheddol a thir sy'n addas ar gyfer prosiect ymchwilio. Mae angen i'r dysgwyr gyflawni ymchwil annibynnol a dethol un pwnc ar gyfer y prosiect, mewn trafodaeth gyda'r tiwtor.

Mae deilliant dysgu 2 yn cynnwys cynllunio ar gyfer y prosiect. Mae angen i'r dysgwyr nodi'r adnoddau sy’n angenrheidiol i gwblhau eu prosiect a chreu cynllun gweithrediadau sy'n nodi'r holl dasgau ac amseriadau o ddechrau'r prosiect i'r diwedd. Gellid cyflwyno hyn trwy ddefnyddio darlithoedd, cynllunio seminarau, sesiynau ymarferol a/neu ymchwil annibynnol.

Ar gyfer deilliant dysgu 3, bydd y dysgwyr yn cyflawni eu prosiect ymchwilio. Gallai'r dysgwyr gadw dyddiadur prosiect sy’n cofnodi'r tasgau angenrheidiol ac yn nodi pryd cafodd y tasgau eu cwblhau. Hefyd gellid defnyddio taflenni monitro i gofnodi cynnydd y prosiect yn erbyn y cynllun gweithrediadau. Mae'n debygol bydd y cyflwyno'n cynnwys sesiynau ymarferol, gwaith annibynnol gan ddysgwyr a/neu seminarau.

Mae deilliant dysgu 4 yn cynnwys adrodd am y prosiect ymchwilio. Mae darlithoedd a/neu seminarau yn ddulliau da o gwmpasu’r gofynion ar gyfer ysgrifennu adroddiadau a gwerthuso. Bydd angen i’r dysgwyr wneud gwaith dysgu annibynnol ar gyfer yr ysgrifennu terfynol, a bydd cyfleoedd i'r dysgwyr drafod unrhyw faterion y deuant ar eu traws.

### Cynllun dysgu amlinellol

Mae'r cynllun dysgu amlinellol wedi cael ei gynnwys yn yr uned hon fel arweiniad a gellir ei ddefnyddio ar y cyd â'r rhaglen o aseiniadau a awgrymir.

Mae’r cynllun dysgu amlinellol yn rhoi **syniad o faint o waith dysgu fyddai’n angenrheidiol i ddysgwr arferol** gyflawni’r deilliannau dysgu. Mae’n **ddangosol ac yn un ffordd o gyflawni’r gwerth o ran credydau.**

Dylai'r amser dysgu drafod yr holl ddysgu (gan gynnwys yr asesiad) sy'n berthnasol i'r deilliannau dysgu, ni waeth ble, pryd na sut y digwyddodd y dysgu.

| **Pwnc ac aseiniadau/gweithgareddau/asesiadau a awgrymir** |
|---|
| Cyflwyniad i'r uned, strwythur a rhaglen aseiniadau |
| **Aseiniad 1: Cynllunio Prosiect** (Ll1, Ll2, Ll3, Ll4, Ll5, Ll6, T1, T2)<br>Y tiwtor yn cyflwyno'r aseiniad |
| Mewnbwn ffurfiol ac ymchwil dysgwyr wrth nodi pynciau posib |
| Mewnbwn ffurfiol: ffynonellau gwybodaeth a chynllunio gweithredu |
| Ymchwil dysgwyr: dichonoldeb prosiectau posib |

| Pwnc ac aseiniadau/gweithgareddau/asesiadau a awgrymir |
|---|
| Ymweliadau a siaradwyr gwadd (yn unol ag anghenion y dysgwyr) |
| Paratoi deunyddiau ar gyfer aseiniad |
| **Aseiniad 2: Gweithredu** (Ll7, Ll8, Ll9, T3)<br>Y tiwtor yn cyflwyno'r aseiniad |
| Mewnbwn ffurfiol a thrafodaeth |
| Iechyd a diogelwch – cyflawni asesiadau risg |
| Llunio cofnod gwaith/dyddiadur/system fonitro |
| Cyflawni’r prosiect ymchwil |
| Paratoi deunyddiau ar gyfer yr aseiniad |
| **Aseiniad 3: Adrodd a Gwerthuso** (Ll10, Ll11, T4, Rh1)<br>Y tiwtor yn cyflwyno’r aseiniad |
| Mewnbwn ffurfiol a thrafodaeth – ysgrifennu adroddiad |
| Mewnbwn ffurfiol: dadansoddi'r data a gasglwyd |
| Paratoi adroddiad ysgrifenedig |
| Paratoi cyflwyniad PowerPoint |
| Cyflwyno cyflwyniad PowerPoint |
| Adolygu'r uned |

## Asesu

Gellid asesu Ll1, Ll2, Ll3, Ll4, Ll5 a Ll6 gyda'i gilydd. Bydd gofyn i'r dysgwyr restru ffynonellau gwybodaeth perthnasol i brosiect yn y sector amgylcheddol a thir. Dylai'r dysgwyr ddethol a chyflawni peth ymchwil i dri phwnc gwahanol sy'n addas ar gyfer prosiect ymchwil. Yna dylai'r dysgwyr ddewis un o'r tri ar gyfer eu prosiect ymchwil. Dylai hyn ddigwydd mewn ymgynghoriad â'r tiwtor, er mwyn sicrhau ei fod yn brosiect dichonadwy. Mae angen i'r dysgwyr ddisgrifio'r prosiect a ddewiswyd a pharatoi cynnig ar ei gyfer. Mae angen iddynt baratoi cynllun gweithrediadau ac egluro'r rhesymau dros eu dewis o adnoddau. Dylai'r dysgwyr roi manylion ynghylch sut mae pob adnodd yn berthnasol i'r amserlen weithrediadau a ddatblygwyd ar gyfer prosiect ymchwilio yn y sector amgylcheddol a thir. Ar gyfer T1, mae angen i'r dysgwyr egluro pam maent wedi dewis eu prosiect ac, ar gyfer T2, egluro pam mae’r adnoddau a nodwyd yn berthnasol i'r amserlen weithrediadau a gynlluniwyd ganddynt. Mae'r meini prawf hyn i gyd wedi'u cysylltu'n glir a gallai’r dystiolaeth fod ar ffurf nodiadau ysgrifenedig, cyflwyniad neu adroddiad prosiect.

Ar gyfer Ll7, Ll8 a Ll9 rhaid i'r dysgwyr gyflawni’r prosiect ymchwil yn y sector amgylcheddol a thir. Gallai’r asesiad gynnwys dyddiadur a/neu gofnod gwaith yn cofnodi'r gwaith a gyflawnwyd ynghyd ag unrhyw gynnyrch neu arteffact sydd wedi'i greu o bosib. Gall y meini prawf hyn hefyd gael eu hasesu'n uniongyrchol gan y tiwtor yn ystod gweithgareddau ymarferol. Os defnyddir y fformat hwn, tystiolaeth addas o weithgareddau o dan arweiniad fyddai cofnodion arsylwi wedi'u cwblhau gan y tiwtor ynghyd â chofnodion gwaith priodol neu nodiadau dysgwyr perthnasol eraill. Os asesir yn ystod lleoliad, dylid darparu datganiadau tystion gan gynrychiolydd addas a'u dilysu gan y tiwtor. Bydd gofyn bod y dysgwyr yn cynhyrchu asesiad risg ar gyfer y prosiect ac yn trafod goblygiadau iechyd a diogelwch cysylltiedig â chyflawni prosiect ymchwilio yn y sector amgylcheddol a thir. Ar gyfer T3, rhaid i'r dysgwyr egluro pwysigrwydd monitro perfformiad yn rheolaidd yn erbyn amserlen weithrediadau'r prosiect. Dylai'r dysgwyr gynnwys yn eu tystiolaeth broblemau a allai godi gyda phrosiect os na chaiff perfformiad ei fonitro'n rheolaidd. Gellid asesu Ll7, Ll8, Ll9 a T3 gyda'i gilydd ac mae'r dystiolaeth a gynhyrchwyd yn debygol o gynnwys datganiadau tystion, cofnodion gwaith/dyddiadur gwaith a gyflawnwyd a thystiolaeth ysgrifenedig.

Mae Ll10, Ll11, T4 a Rh1 yn gofyn bod y dysgwyr yn paratoi adroddiad ar y prosiect ymchwilio yn y sector amgylcheddol a thir. Gellid asesu hyn trwy un aseiniad. Ar gyfer Ll10, mae angen i'r dysgwyr gynhyrchu adroddiad ar y prosiect ac, ar gyfer Ll11, werthuso'r cyflawniadau a'r meysydd i'w gwella yn y prosiect y maent wedi’i ddewis. Ar gyfer T4, rhaid i'r adroddiad roi manylion cynllunio, amserlen weithrediadau, monitro a chwblhau'r prosiect. Dylai hyn fod ar ffurf adroddiad ysgrifenedig, gan ddilyn confensiynau ysgrifennu adroddiad safonol. Ar gyfer Rh1, rhaid i'r dysgwyr gyflwyno’r adroddiad manwl. Gallai hyn fod ar ffurf cyflwyniad PowerPoint.

**Rhaglen aseiniadau a awgrymir**

Mae'r tabl sy'n dilyn yn dangos rhaglen o aseiniadau a awgrymir sy'n cwmpasu'r meini prawf llwyddo, teilyngdod a rhagoriaeth yn y grid graddio. Arweiniad yw hwn ac awgrymir bod canolfannau naill ai'n ysgrifennu eu haseiniadau eu hunain neu'n addasu unrhyw aseiniadau Edexcel i gyd-fynd ag anghenion ac adnoddau lleol.

| Meini prawf sy'n cael eu cwmpasu | Teitl yr aseiniad | Senario | Dull asesu |
|---|---|---|---|
| Ll1, Ll2, Ll3, Ll4, Ll5, Ll6<br>T1, T2 | Cynllunio Prosiect | Rydych yn gweithio i adran ymchwil sefydliad mawr ym maes yr amgylchedd a thir. O fewn yr ychydig fisoedd nesaf bydd gennych gyfle i gael dyrchafiad ac fel rhan o broses ddethol gofynnwyd i chi gyflawni prosiect ymchwil. Ymchwiliwch i'r gwahanol ffynonellau gwybodaeth sy'n berthnasol i'r sector amgylcheddol a thir.<br>Lluniwch restr o ffynonellau gwybodaeth posib. Ymchwiliwch i dri phwnc posib a llunio crynodeb ysgrifenedig am bob un. Dewiswch un pwnc a darparu disgrifiad ysgrifenedig ohono. Paratowch gynnig ar gyfer ymchwiliad i'ch dewis bwnc.<br>Fel rhan o'ch cynnig, lluniwch gynllun gweithrediadau a rhestr o'r adnoddau angenrheidiol i gyflawni'r prosiect. Darparwch eglurhad ysgrifenedig dros ddewis pob adnodd. | Ymchwil<br>Cynllunio cyflwyniad |

| Meini prawf sy'n cael eu cwmpasu | Teitl yr aseiniad | Senario | Dull asesu |
|---|---|---|---|
| Ll7, Ll8, Ll9, T3 | Rhoi ar waith | Llunio asesiad risg ar gyfer y prosiect a chreu disgrifiad ysgrifenedig o oblygidadau iechyd a diogelwch y prosiect.<br>Cyflawni'r prosiect ymchwil, gan gadw cofnod o'ch cynnydd. Gallai hyn fod ar ffurf cofnod gwaith neu ddyddiadur, sy'n dangos sut gwnaethoch chi gadw at eich terfynau amser eich hun.<br>Cynhyrchu crynodeb sy'n egluro pwysigrwydd monitro perfformiad yn rheolaidd yn erbyn amserlen gweithrediadau'r prosiect. | Ymchwil<br>Adroddiad<br>Datganiadau tystion |
| Ll10, Ll11, T4, Rh1 | Adrodd a Gwerthuso | Cynhyrchu adroddiad ysgrifenedig ar y prosiect gan ddefnyddio fformat priodol. Dylid cynnwys manylion y cynllunio, yr amserlen weithrediadau, monitro a chwblhau'r adroddiad. Darparu gwerthusiad o gyflawniadau'r prosiect a meysydd ar gyfer gwella.<br>Yn olaf, cyflwynwch adroddiad llawn (gan ddefnyddio PowerPoint) i'ch goruchwyliwr. | Adroddiad<br>Cyflwyniad |

## Cysylltiadau â Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol, unedau BTEC eraill, cymwysterau BTEC eraill ac unedau a chymwysterau perthnasol eraill

Mae'r uned hon yn ffurfio rhan o gyfres sector tir BTEC. Mae gan yr uned hon gysylltiadau penodol â:

| **Lefel 2** |
|---|
| Cyflawni Profiad Gwaith yn y Diwydiannau Tir |
| Cyflwyno a gwasanaethu manwerthu yn y Sector Tir |
| **Lefel 3** |
| Cyflawni ac Adolygu Profiad Gwaith yn y Diwydiannau Tir |
| Cyflawni Marsiandïaeth Manwerthu i'r Sector Tir |

## Adnoddau hanfodol

Bydd angen i'r dysgwyr gael mynediad at adnoddau addas y nodwyd ganddynt eu bod yn angenrheidiol er mwyn cwblhau eu prosiect. Rhaid cytuno ar ofynion adnoddau gyda'r tiwtor cyn i'r prosiect ddechrau.

## Ymgysylltu â chyflogwyr a chyd-destunau galwedigaethol

Bydd ymweliadau â sefydliadau anifeiliaid a siaradwyr gwadd o sefydliadau anifeiliaid, bywyd gwyllt a lles, ynghyd â lleoliadau profiad gwaith perthnasol, yn helpu'r dysgwyr i gyflawni'r deilliannau dysgu.

## Darllen dangosol i ddysgwyr

### Gwerslyfrau


Applegarth M a Posner K – *Project Management Pocketbook* (Management Pocketbooks, 2008) ISBN 9781903776872

Barker S a Cole R – *Brilliant Project Management: What the Best Project Managers Know, Do and Say* (Prentice Hall, 2009) ISBN 9780273722328

Fleming I – *Time Management Pocketbook* (Management Pocketbooks, 2003) ISBN 9781903776087

Lock D – *Project Management* (Gower Publishing, 2007) ISBN 9780566087721

Nokes S a Kelly S – *The Definitive Guide to Project Management: The Fast Track to Getting the Job Done on Time and on Budget* (Cyfres y Financial Times, 2007) ISBN 9780273710974

Portny S E – *Project Management for Dummies* (J Wiley & Sons, 2006) ISBN 9780470049235


### Cyfnodolion

*Project Manager Today*

### Gwefannau

| | |
|---|---|
| www.apm.org.uk | Mae gan Y Gymdeithas Rheoli Prosiectau dros 35 mlynedd o brofiad yn cyfuno profiad helaeth ei haelodau wrth ddatblygu gwyddor a chelfyddyd rheoli prosiectau |
| www.pmi.org.uk | Y Sefydliad Rheoli Prosiectau yw'r gymdeithas broffesiynol fyd-eang ar gyfer rheolwyr prosiect, rhaglen neu bortffolio a swyddogion PMO |
| www.pmtoday.co.uk | Cyhoeddir Project Manager Today 10 gwaith y flwyddyn ac mae ar gael ar-lein ac fel pecyn papur ar danysgrifiad ac yn rhyngwladol |

## Cyflwyno sgiliau personol, dysgu a meddwl (SPDM)

Mae'r tabl isod yn nodi'r cyfleoedd SPDM a gafodd eu cynnwys ym meini prawf asesu'r uned hon:

| Sgil | Pan fydd y dysgwyr yn… |
|---|---|
| **Ymholwyr annibynnol** | ymchwilio i ffynonellau gwybodaeth, dethol a disgrifio pwnc, cyflawni prosiect ymchwil ac adrodd am brosiect ymchwil a'i werthuso |
| **Meddylwyr creadigol** | ymchwilio i ffynonellau gwybodaeth, egluro'r rhesymau dros ddewis pwnc, cyflawni prosiect ymchwil |
| **Dysgwyr myfyriol** | adrodd am eu prosiect ymchwil a’i werthuso |
| **Cyfranogwyr Effeithiol** | cyflawni eu prosiect ymchwil, gweithio tuag at derfynau amser a monitro eu cynnydd |

Er y nodir cyfleoedd SPDM yn yr uned hon fel rhan annatod o'r meini prawf asesu, ceir cyfleoedd eraill i ddatblygu amrediad o SPDM trwy ymagweddau amrywiol at ddysgu ac addysgu.

| Sgil | Pan fydd y dysgwyr yn… |
|---|---|
| **Ymholwyr annibynnol** | cyflawni ymchwil ar gyfer yr aseiniadau a'r prosiect |
| **Meddylwyr creadigol** | nodi pynciau ar gyfer prosiectau ymchwil posib |
| **Dysgwyr myfyriol** | gwerthuso cynnydd y prosiect ymchwil |
| **Gweithwyr tîm** | gweithio gydag eraill ar y prosiect ymchwil |
| **Hunan-reolwyr** | rheoli eu hamser eu hunain a monitro cynnydd y prosiect |
| **Cyfranogwyr Effeithiol** | cymryd rhan mewn trafodaethau dosbarth i nodi prosiectau ymchwil posib |

## Sgiliau swyddogaethol – Lefel 2

| Sgil | Pan fydd y dysgwyr yn... |
|---|---|
| **TGCh – Defnyddio systemau TGCh** | |
| Dethol, rhyngweithio â systemau TGCh a'u defnyddio'n annibynnol ar gyfer tasgau cymhleth i fodloni anghenion amrywiol | ymchwilio i wybodaeth ar gyfer prosiectau ymchwil posib |
| Defnyddio TGCh i gynllunio gwaith yn effeithiol a gwerthuso effeithiolrwydd y system TGCh a ddefnyddiwyd | cynllunio gweithredu a gwaith monitro y mae angen ei gyflawni |
| Rheoli storio gwybodaeth er mwyn galluogi adalw effeithlon | cadw gwybodaeth ar ffeiliau ac mewn ffolderi |
| Dilyn arferion diogelwch a diogeledd a deall yr angen amdanynt | defnyddio systemau TGCh yn ddiogel – eistedd yn gywir wrth y cyfrifiadur, cadw bwyd a diod yn ddigon pell o gyfarpar cyfrifiadurol |
| **TGCh – Canfod a dethol gwybodaeth** | |
| Dethol a defnyddio amrywiaeth o ffynonellau gwybodaeth yn annibynnol ar gyfer tasg gymhleth | cyflawni'r prosiect ymchwil |
| Cael mynediad i wybodaeth seiliedig ar TGCh, chwilio amdani, ei dewis a'i defnyddio – a gwerthuso ei haddasrwydd at y diben | cynllunio pa wybodaeth i'w dewis a'i defnyddio ar gyfer y cyflwyniad PowerPoint |
| **TGCh – Datblygu, cyflwyno a chyfathrebu gwybodaeth** | |
| Mewnbynnu, datblygu a fformadu gwybodaeth yn annibynnol i weddu i'w hystyr a'i diben gan gynnwys:<br>● testun a thablau<br>● delweddau<br>● rhifau<br>● cofnodion | ysgrifennu am y prosiect ymchwil |
| Dwyn ynghyd wybodaeth i weddu i'r cynnwys a'r diben | ysgrifennu am y prosiect ymchwil |
| Cyflwyno gwybodaeth mewn ffyrdd sy'n gweddu i'r diben a'r gynulleidfa | ysgrifennu am y prosiect ymchwil<br>creu cyflwyniad PowerPoint |
| Dethol a defnyddio TGCh i gyfathrebu a chyfnewid gwybodaeth yn ddiogel, yn gyfrifol ac yn effeithiol gan gynnwys storio negeseuon a rhestrau cyswllt | cysylltu ag eraill ar e-bost i gael gwybodaeth |

| Sgil | Pan fydd y dysgwyr yn… |
|---|---|
| **Mathemateg** | |
| Deall problemau arferol ac anarferol mewn amrediad eang o gyd-destunau a sefyllfaoedd cyfarwydd ac anghyfarwydd | cyflawni dadansoddiad ystadegol o ddata a gasglwyd yn ystod y prosiect ymchwil |
| Nodi'r sefyllfa neu'r broblem a'r dulliau mathemategol angenrheidiol i'w datrys | nodi techneg ystadegol addas i ddadansoddi data a gasglwyd yn ystod y prosiect ymchwil |
| Dethol ystod o sgiliau i ganfod datrysiadau a'u rhoi ar waith | cyflawni dadansoddiad ystadegol o ddata a gasglwyd yn ystod y prosiect ymchwil |
| Defnyddio gweithdrefnau gwirio priodol a gwerthuso eu heffeithiolrwydd ar bob cam | cyflawni dadansoddiad ystadegol o ddata a gasglwyd yn ystod y prosiect ymchwil |
| Llunio casgliadau a darparu cyfiawnhad mathemategol | adrodd am eu prosiect ymchwil |
| **Iaith** | |
| Siarad a gwrando – gwneud amrywiaeth o gyfraniadau i drafodaethau a gwneud cyflwyniadau effeithiol mewn ystod eang o gyd-destunau | cymryd rhan mewn trafodaethau dosbarth am brosiectau ymchwil posib |
| Darllen – cymharu, dethol, darllen a deall testunau a'u defnyddio i gywain gwybodaeth, syniadau, dadleuon a safbwyntiau | darllen dogfennau sy'n berthnasol i'w prosiect ymchwil |
| Ysgrifennu – ysgrifennu dogfennau, gan gynnwys darnau ysgrifenedig estynedig, cyfathrebu gwybodaeth, syniadau a safbwyntiau, yn effeithiol ac yn berswadiol | ysgrifennu dogfennau sy'n berthnasol i'w prosiect ymchwil |